Cliwiau o'r Caeau

Mary Lloyd Evans a Huw Hughes

I rai ohonoch peth rhyfedd o bosib yw ysyried y gall enwau gael eu rhoi ar gaeau.

Mae enwau caeau yn bethau difyr iawn gan eu bod yn gallu awgrymu llawer ynglŷn â'u defnydd 'slawer dydd. Yn anffodus, mae llawer o enwau caeau yn mynd yn anghof.

Mewn ambell fan, mae cofnodion ysgrifenedig yn bodoli o enwau caeau, fel yn achos Llanerchaeron, sef ystâd o'r ddeunawfed ganrif sydd erbyn hyn yng ngofal Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru. Cofnodwyd enwau caeau ar ran o'r Ystâd dros 160 o flynyddoedd yn ôl, ar 29 Mehefin 1839, fel a ganlyn:

Rhif y Cae	Enw
348	House, Garden, Yards, Road, Wood
349	Cae Dail
350	Cae Dail
353	Ddôl yr Eglwys
354	Ddôl Ayron
355	Cae Pilcorn
356	Cae Bricks
360	Cae Pull
361	Cae Hengroes
362	Banc y Felin
363	Banc y Felin
364	Ddôl y Pandy

Plasdy Llanerchaeron

Gwirfoddolwraig addysg wrthi'n adloni yn yr ysgubor!

Disgyblion yn malu dan oruchwyliaeth gwirfoddolwraig.

Croesewir grwpiau addysgol i Lanerchaeron, ger Aberaeron, lle cewch gyfle i ymweld â'r caeau eich hunain a ble mae rhaglen o weithgareddau tywysedig ar gael i ddisgyblion cyfnod allweddol 2. Cysylltwch â 01545 570200 am fanylion.

Buarthau o gwmpas adeiladau amaethyddol Llanerchaeron

Math o rawn, tebyg i wenith, yw pilcorn. Cafodd pilcorn ei dyfu oherwydd gellid ei ddefnyddio i fwydo anifeiliaid yn ogystal ag i wneud blawd i bobl i'w bobi.

Beth, allech chi dybio, ddigwyddodd neu a dyfwyd yn y caeau eraill?

Gan bod y defnydd o gaeau yn gallu newid, mae enwau yn gallu newid hefyd. Gwyddom fod enw Cae Dail wedi newid 4 gwaith yn ystod y 160 blwyddyn ddiwethaf. Cyfeiriwyd ato fel 'the Lawn', cyn iddo gael ei alw'n 'the Park', ac erbyn hyn cyfeirir ato fel y 'parc-dir'.